# CYLCHLYTHYR

*Lleihau'r perygl o lifogydd yn Aberaeron gyda'n gilydd*

**Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron**

bam

**Rhif 5: Chwefror 2025**

## Croeso

Dyma ein pumed cylchlythyr ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron sy'n ceisio rhoi trosolwg o'r gwaith sydd ar ddod.

Os hoffech chi weld ein cylchlythyrau sganiwch:

**Saesneg:** **Cymraeg:**



*Adeiladu Morglawdd Pier y Gogledd*

Mae BAM yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion ac AtkinsRéalis Design Consultancy i gyflawni Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron.

## Rheolwr y Prosiect – Diweddariad Cynnydd

Gwybodaeth

Nod Prosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron yw diogelu'r dref a'i seilwaith hanfodol a'r amgylchedd o'i chwmpas sydd mewn perygl oherwydd cynnydd yn lefel y môr, stormydd ac erydiad arfordirol parhaus. Mae sawl amcan allweddol i'r prosiect, gan gynnwys adeiladu morglawdd newydd, atgyfnerthu strwythurau presennol, a gwella gwydnwch arfordirol naturiol trwy ddylunio a strategaethau arloesol.

Mae'n bleser gennyf ddweud bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud ar draws sawl maes allweddol o'r prosiect. Rydym eisoes yn gweld manteision y morglawdd newydd ac mae'n helpu i ddiogelu ein gwaith ym Mhwll Cam gyda llai o orlifo yn ein gwaith dros dro. Bwriedir cwblhau cynllun amddiffyn yr arfordir yng ngwanwyn 2025, ac eithrio Pier y De, wal Aeron, a gât Pwll Cam, lle y disgwylir i'r gwaith barhau tan Sulgwyn 2025.

Drwy gydol y prosiect, rydym yn parhau i ymgysylltu â thrigolion, busnesau, a grwpiau amgylcheddol lleol. Mae sesiynau galw heibio a digwyddiadau gwybodaeth rheolaidd wedi'u cynnal i'r cyhoedd, ac rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus a'r adborth a gawn gan gymuned Aberaeron.



Er bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud, rydym yn rheoli heriau mawr wrth geisio cyflenwi prosiect mor gymhleth a chadw i'r lleiaf posibl y tarfu ar fusnesau lleol a'r dref yr un pryd. Mae tywydd garw, problemau gyda'r gadwyn gyflenwi, a ffactorau amgylcheddol annisgwyl wedi creu risg i amserlen y prosiect. Fodd bynnag, mae ein tîm prosiect yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau mor effeithlon â phosibl.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. **Andrew Pointon-Bell**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government
bam
AtkinsRéalis
CONSIDERATE CONSTRUCTORS SCHEME

## Rheoli traffig a cherddwyr

Rydym yn gwneud pob ymdrech i gadw i'r lleiaf posibl ein heffaith ar drigolion ac ymwelwyr ag Aberaeron wrth i ni weithio ar yr amddiffynfeydd rhag llifogydd. Ond mae'n rhaid rheoli traffig a cherddwyr er mwyn i ni gael mannau gweithio diogel ac amddiffyn y cyhoedd. Mae'r ardaloedd sydd ar gau dros dro a restrir isod yn parhau yn eu lle:

- Gwyriad llwybr yr arfordir trwy Aberaeron.
- Mynediad i Draeth y De.
- Y bont droed bren i gerddwyr ar draws afon Aeron.
- Mae cau'r ffordd dros dro ar hyd Pen Cei wedi cael ei ymestyn i 11/04/2025 er mwyn hwyluso'r gwaith o gwblhau'r gwaith draenio.

## Beth ydym ni wedi bod yn ei wneud?

- Cwblhau'r draeniad prif linell dwfn ar hyd Pen Cei.
- Dechrau'r gwaith ar osod 4 gât ym Mhen Cei.
- Cladin gwaith maen ar wal newydd Pen Cei. Caiff hyn ei gwblhau pan fydd y paneli gwydr yn cyrraedd o'r gwneuthurwr.
- Gosod paneli gwydr ar hanner cyntaf wal afon Aeron sydd wedi'i gwblhau i bont ffordd yr A487.
- Gosod angorau daear a growtio i wal bresennol afon Aeron yn Toad Hall.
- Adeiladu Morglawdd y Gogledd a rhodfa goncrit.
- Ailadeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De a gosod y grwynau pren newydd.
- Adeiladu ategweithiau y gât harbwr mewnol newydd a wal newydd yr Hive.
- Cloddio ac adeiladu sylfeini newydd Pier y De.

## Gwaith allweddol sydd ar ddod

### Chwefror:

- Gosod y sianel draenio dŵr wyneb ar hyd Pen Cei.
- Gosod paneli gwydr a chopin gwaith maen – Pen Cei a'r Hive.
- Cwblhau cwrt yr Hive.
- Parhau i osod gatiau Pen Cei.
- Parhau i adeiladu ategweithiau y gât harbwr mewnol newydd.
- Parhau i adeiladu rhodfa goncrit Morglawdd y Gogledd a gosod creigiau.
- Ailadeiladu wal yr afon o flaen Toad Hall a Y Seler. Cael gwared ar y platfform mynediad i afon Aeron.
- Adeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De a'r grwynau pren.
- Adeiladu sylfeini newydd Pier y De.

### Mawrth:

- Cwblhau'r sianel draenio dŵr wyneb ym Mhen Cei.
- Comisiynu colofnau goleuadau.
- Gosod gatiau gerllaw'r Hive ar Ben Cei.
- Cwblhau rhodfa goncrit Morglawdd y Gogledd a gosod creigiau.
- Cwblhau'r gwaith adeiladu, concrit ar gyfer ategweithiau r gât harbwr mewnol newydd a strwythurau cyfagos.
- Gosod cladin gwaith maen ar ategweithiau gât Pwll Cam.
- Ar ddiwedd mis Mawrth rydym yn disgwyl i rannau o gât harbwr mewnol Pwll Cam gyrraedd y safle.
- Ailadeiladu wal yr afon o flaen Toad Hall a Y Seler.
- Adeiladu wal a ramp newydd ar gyfer y bont goed i gysylltu â wal afon Aeron.
- Cwblhau wal gynnal gerrig Traeth y De a'r grwynau pren.
- Adeiladu sylfeini newydd Pier y De.

### Ebrill:

- Gosod gât harbwr Pwll Cam.
- Parhau â'r cladin gwaith maen ar y waliau o amgylch y gwaith gât.
- Pen Cei: gosod paneli gwydr.
- Gwaith wynebu terfynol ar hyd Pen Cei.
- Adeiladu wal a ramp newydd ar gyfer y bont bren i gysylltu â wal afon Aeron.
- Adeiladu waliau newydd i ben Pier y De.

### Mai:

- Pen Cei: gosod y paneli gwydr olaf.
- Symud yr argae coffr seilbyst dros dro ar draws y fynedfa.



## Gwaith allweddol sydd ar ddod

### Mai parhad:

- Parhau i adeiladu'r wal ar gyfer y bont bren i gysylltu â wal afon Aeron a dechrau'r cladin gwaith maen.
- Tirlunio caled ar bromenâd teras Pwll Cam.
- Gosod paneli gwydr ar wal Y Seler a waliau teras Pwll Cam.
- Adeiladu waliau newydd i ben Pier y De.

## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

### Llysgenhadon STEM

Nod y digwyddiad oedd ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfaoedd ym maes adeiladu yn y dyfodol, a chafodd y myfyrwyr wybodaeth werthfawr am y sector, llwybrau gyrfa a chyfleoedd yn y dyfodol:

- Ysgol Uwchradd Penglais – myfyrwyr adeiladu Blwyddyn 10
- Ysgol Gyfun Aberaeron – digwyddiad opsiynau ysgol Blwyddyn 9
- Ysgol Uwchradd Penglais – digwyddiad opsiynau pynciau ysgol Blwyddyn 9
- Ysgol Bro Teifi – digwyddiad opsiynau pynciau ysgol Blwyddyn 9
- Ysgol Bro Pedr – digwyddiad Prentisiaethau Blwyddyn 12



### Cyngerdd Ysgol Gynradd Aberaeron



Cafodd cynrychiolwyr BAM eu gwahodd i gyngerdd diwedd blwyddyn Ysgol Gynradd Aberaeron. Roedd y cyngerdd yn adrodd hanes yr harbwr, o'r gwaith adeiladu gwreiddiol a'r Parchedig Alban Gwynne yn 1807 i'r gwaith amddiffyn yr arfordir sy'n cael ei wneud gan BAM ar hyn o bryd. Roedd yn ddigwyddiad bendigedig!

### Grŵp Gofalwyr Aberaeron

Roedd Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd BAM wedi cwrdd â'r grŵp 'Gofalwyr' i roi trosolwg o brosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron. Roedd aelodau'r grŵp yn awyddus i ddysgu am y prosiect.



### Achub Milgwn Hectors

Mae staff BAM wedi codi £318.75 yn ddiweddar ar gyfer Canolfan Achub Milgwn leol yn Llanon. Bydd y rhodd hael hon yn helpu'r ganolfan i ddarparu gofal a gwasanaethau hanfodol i achub cŵn mewn angen. Yn ogystal â'r cymorth ariannol, rhoddodd BAM ddiwrnod o wyliau i'w Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd gan roi cyfle iddi wirfoddoli yn y ganolfan a chyfrannu'n uniongyrchol at ofalu am yr anifeiliaid. Mae'r fenter hon yn enghraifft o ymdrechion parhaus BAM i roi rhywbeth yn ôl i achosion lleol a chael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl ac anifeiliaid.



# Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae BAM wedi ymrwymo i gefnogi'r gymuned leol ac wedi noddi nifer o ddigwyddiadau a chlybiau chwaraeon lleol yn Aberaeron.

## Pwyllgor Craffu Cyngor Sir Ceredigion

Roedd Pwyllgor Craffu Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorydd Elizabeth Evans wedi ymweld â Phrosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron i asesu'r cynnydd a gweld y gwaith sy'n cael ei adeiladu.



## Ras 10k y Ford Gron Aberaeron

Roedd BAM wedi noddi'r medal i blant yn ras 10k Aberaeron a drefnwyd gan Ford Gron Aberaeron.




## Seremoni Wobrwyo 'Sbotolau'

Roedd BAM wedi noddi Gwobrau 'Sbotolau' 2024 i bobl ifanc. Mae'r seremoni yn dathlu llwyddiannau pobl ifanc sy'n cyflawni pethau eithriadol ac yn gwneud gwahaniaeth. Mae'r digwyddiad yn gydweithrediad rhwng Ieuenctid Sir Benfro, y Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc, a'r Gwasanaethau Plant.



## Dysgu Cymraeg gyda BAM

Mae BAM yn annog ac yn cefnogi dysgu'r Gymraeg ac mae wedi bod yn cynnig gwersi Cymraeg gyda'r nos i aelodau'r tîm staff trwy'r fenter Dysgu Cymraeg. Mae gallu siarad Cymraeg yn golygu y gall aelodau'r tîm ymgysylltu â'r gymuned leol yn y ddwy iaith, ac mae'n helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.




## Sioe Gerdd Ysgol Gyfun Aberaeron

Roedd BAM wedi noddi cynhyrchiad 'High School Musical' Ysgol Uwchradd Aberaeron.



# Buddion ac Ymgysylltu â’r Gymuned

## Cipolwg o'r adborth a gafwyd gan y gymuned leol

“Roedd yn hyfryd cwrdd â chi ddoe a diolch i chi a phawb yn BAM am yr holl waith a'ch cyfraniad i Aberaeron.”

Preswylydd

“Diolch am roi'r diweddaraf i ni am y gwaith sy'n cael ei wneud ym Mhen Cei.”

Preswylydd

“Diolch yn Fawr Iawn i BAM Nuttall! Roedd yn wych cael BAM Nuttall i fod yn gefnogwr allweddol Ras Elusennol Aberaeron eleni a noddi'r ras i blant.”

Y Ford Gron Aberaeron

“Diolch i chi am ymweld â ni ac am y cymorth ariannol diweddar.”

Ray Ceredigion

“Diolch i BAM am gytuno i gefnogi digwyddiadau gyrfaoedd ysgolion uwchradd.”

Gyrfa Cymru



## Oriel Adeiladu


* Concrit yn cyrraedd Pier y De yn ystod llanw isel



* Gosod estyll i Fynedfa Pwll Cam


* Gosod y paneli gwydr ar hyd afon Aeron


Pier y Gogledd – rhodfa goncrit newydd ar hyd y morglawdd


Gosod yr unedau wedi'u rhag-gastio ar hyd y morglawdd


Pen Cei – gosod tyllau caead draenio newydd


Arllwys concrit trwy graen i gryfhau wal ardd gefn yr Hive


Pen Cei – wal newydd â chladin cerrig


Teras Pwll Cam – wal gerrig newydd yn barod ar gyfer y paneli gwydr

** Lluniau gan Andrew Chittock*

## Oriel Adeiladu


* Pwll Cam – concrit yn cyrraedd


* Mynedfa Pwll Cam – concrit cyfnerthedig ar gyfer gosod y gatiau llifogydd


Mynedfa Pwll Cam


Ailadeiladu pen Pier y De


Yr Hive – sylfaen goncrit


Y pwmp concrit mwyaf yn y DU yn cael ei ddefnyddio i gyrraedd rhodfa’r morglawdd



* Gweithio gyda’r nos – adeiladu’r morglawdd yn ystod llanw isel ar hyd Traeth y De

** Lluniau gan Andrew Chittock*

# EIN TÎM

**Rheolwr Contractau**
Ray Jones

**Rheolwr Prosiect**
Andrew Pointon-Bell

**Syrfëwr Meintiau**
Abby Davies

**Rheolwr Gwaith**
Keith Hughes

**Fforman Cyffredinol**
Damion Hopkins

**Asiant Safle**
Emyr Thomas

**Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd**
Gwen Clements

**Cynghorydd Amgylcheddol**
John Clancy

# EIN PARTNERIAID

**Cyngor Sir Ceredigion:**

**Rheolwr Prosiect**
Alan Haird

**AtkinsRéalis Design Consultancy:**

**Rheolwr Prosiect**
Steffan Davies

**Rheolwr Dylunio**
Matthew Tierney

## BAM ydym ni

Rydym yn dychmygu, yn creu ac yn cyfoethogi adeiladau a seilwaith ar draws y DU ac Iwerddon. Ers dros 150 o flynyddoedd, rydym wedi ymrwymo i wella bywydau trwy greu amgylcheddau a chymunedau cynaliadwy lle y gall pobl fyw, gweithio a ffynnu.

Ein gweledigaeth yw adeiladu dyfodol cynaliadwy. Dyna pam rydyn ni'n meddwl y tu hwnt i'r adeiladu ac yn canolbwyntio ar yr effaith fwy. Dyma sut rydym yn gwneud yr adeiladau a'r seilwaith eiconig sy'n llunio ein cymdeithas.

Yn ein hymgais diflino i wella, rydym yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid i ddatgloi'r hyn sy'n bosibl, gyda'n gilydd. Mae hyn oherwydd ein bod yn credu mewn gweithredu, nid geiriau.

A dyna pam rydym ar genhadaeth i'w gwneud yn bosibl.

## Amgylchedd a chymuned

Trwy fabwysiadu agwedd gyfrifol a rhagweithiol at faterion amgylcheddol, mae BAM wedi ymrwymo i leihau effeithiau niweidiol posibl ei weithgareddau busnes ar yr amgylchedd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy gydbwyso ei amcanion busnes ac ystyriaethau amgylcheddol. Bydd BAM yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill y mae'n ymrwymo iddynt, lle bo hynny'n bosibl, mewn perthynas â'i agweddau amgylcheddol a chynnwys cymunedau yn y prosiect.

## Adeiladwyr Ystyriol

Mae pob safle BAM yn cofrestru gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac i fod yn lân, yn barchus, yn ddiogel, yn ymwybodol o'r amgylchedd, yn gyfrifol ac yn atebol. Mae ein safle yn cael ei archwilio'n annibynnol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau hyn.

Rydym yn ceisio gweithio mewn ffordd sy'n achosi cyn lleied o anghyfleustra â phosibl i'n cymdogion. Ymddiheurwn am unrhyw niwsans a allai gael ei achosi yn ystod y gwaith na ellir ei osgoi.

## Cysylltu â Ni

Ein bwriad yw cwblhau'r gwaith hwn heb fawr o amharu. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd sydd ar gael i helpu.

**Gwen Clements:**

**07585 633799** **Aberaeron.plo@bam.com**

Gallwch gofrestru ar gyfer diweddariadau ebost trwy ebostio aberaeron.plo@bam.com a chadarnhau yr hoffech dderbyn diweddariadau a chopi o gylchlythyrau yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am BAM:

Sganiwch yma

